GWYDDOR AMGYLCHEDDOL

Ar ôl graddio mewn Gwyddor Amgylcheddol, fel arfer bydd gennych y sgiliau a'r nodweddion canlynol:

Sgiliau cyfathrebu, trefnu, meddwl yn feirniadol, ymchwilio, dadansoddi beirniadol, cyflwyno, y gallu i weithio dan bwysau, hunanreoli, sgiliau rhyngbersonol, hyder a pharodrwydd i ddysgu.

Yn fwy penodol, ar ôl graddio mewn gwyddor amgylcheddol, bydd gennych:

- Wybodaeth am newidiadau amgylcheddol a achosir gan natur a dyn.
- Agwedd ryngddisgyblaethol at ymwybyddiaeth o broblemau amgylcheddol.
- Ymwybyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o systemau, cynaladwyedd a chadwraeth y ddaear.
- Y gallu i feddwl a gwneud penderfyniadau mewn modd holistaidd ac integredig ac i ymdrin â chymhlethdod a newid.
- Y gallu i ddatblygu dadleuon o lawer o safbwyntiau gan gynnwys safbwyntiau gwyddonol, athronyddol a moesegol.
- Y gallu i reoli prosiectau, gan gynnwys cynllunio, gweithredu a gwerthuso, gan ddefnyddio sgiliau rheoli amser, asesu risg a datrys a dadansoddi problemau.
- Sgiliau datblygedig mewn llythrennedd, rhifedd, sgiliau graffig a TGCh.

Cipolwg ar Wyddor Amgylcheddol

Gwyddor amgylcheddol yw astudiaeth o brosesau yn y gorffennol a'r presennol ar wyneb a ger wyneb y ddaear, ei dyfroedd a'r atmosffer. Mae'n cynnwys prosesau ffisegol, cemegol, biolegol a dynol, hanes y ddaear yn ystod cyfnod dyn, a monitro a rheoli newidiadau amgylcheddol naturiol ac a achosir gan ddyn. Mae agweddau a astudir yn cynnwys cymhlethdod a chydberthynas systemau'r ddaear, rôl systemau'r ddaear wrth gynnal bywyd ac ymatebion dyn i broblemau amgylcheddol: asesiad o effaith amgylcheddol, rheolaeth a pholisi; rheoli ar sail risg; yr egwyddor ragofalus; cyfyngiadau ar dyfiant; cynaliadwyedd a datblygiad cynaliadwy.

Mae gweithio yn yr amgylchedd naturiol yn darparu cyfleoedd a chyfyngiadau ar waith prosiect sy'n wahanol, annisgwyl ac yn fwy o her na'r rhai sy'n deillio o weithgareddau ystafell ddosbarth. Gellir trosglwyddo'r sgiliau a'r nodweddion a ddatblygir yn hawdd i amrywiaeth o swyddogaethau a gwahanol amgylcheddau gwaith a bod yn sylfaen i gyfraniadau gwirioneddol gweithwyr brwdfrydig a medrus mewn sefydliad. Yn benodol, mae'r gallu i bwyso a mesur materion, dadansoddi sefyllfaoedd a phroblemau a chanfod ateb creadigol, a gweithio gydag eraill i derfynau amser anodd a thynn o bryd i'w gilydd, ac amgylcheddau anghyfarwydd, yn sgiliau cyfarwydd i Wyddonwyr Amgylcheddol.

Sources: